
GWASG PRIFYSGOL CYMRU
UNIVERSITY OF WALES PRESS


**Mynediad Agored (MA) – Cyfnodolion**

**Cyfnodolion Mynediad Agored Platinwm**

Mae ein Cyfnodolion Mynediad Agored platinwm ar gael i'w darllen mewn fformat digidol heb danysgrifiad, ac nid oes ffi i gyflwyno na chyhoeddi erthygl.





Cylchgrawn Addysg Cymru




International Journal of Welsh Writing in English

**Cyfnodolion hybrid**


Mae GPC yn cynnig modelau Mynediad Agored gwyrdd ac aur i gyfnodolion hybrid.





Cylchgrawn Hanes Cymru




Studia Celtica




Journal of Celtic Linguistics




Llên Cymru




The Journal of Religious History, Literature and Culture

**Gwyrdd:**

- Gall awduron hunan-archifo fersiwn llawysgrif awdur a dderbyniwyd eu herthygl mewn ystorfa prifysgol/ystorfa bwnc anfasnachol, neu ar wefan bersonol/adrannol.
- Oni cheir mandad fel arall, gall fod ar gael i'w lawrlwytho 18 mis ar ôl dyddiad cyhoeddi'r fersiwn terfynol yng nghyfnodolyn GPC.
- Dylai'r crynodeb gynnwys cyfeirnod llawn yr erthygl a gyhoeddir (yn cynnwys enw'r awdur, enw a rhifyn y cyfnodolyn, blwyddyn, ISSN, dolen DOI a nodi GPC fel cyhoeddwr).
- Cyfrifoldeb yr awdur yw sicrhau bod unrhyw ganiatâd angenrheidiol ar gyfer deunydd hawlfraint trydydd parti wedi'i glirio ar gyfer MA.
- Mae GPC yn argymell defnyddio trwydded CC BY NC ND. Fodd bynnag,

os yw mandad cyllidwr yn pennu trwydded CC BY gwahanol, cysylltwch ag Adran Gomisiynu GPC i drafod.

**Aur**:

- Drwy dalu APC, gallwn gyhoeddi eich erthygl ar sail MA Aur h.y. bydd yn cael ei wneud yn MA ar unwaith pan gyhoeddir cyfnodolyn GPC. Os byddwch chi angen MA aur, cysylltwch ag Adran Gomisiynu GPC pan gaiff eich erthygl ei derbyn i'w chyhoeddi.
- Mae'r APC yn daladwy cyn i'r cyfnodolyn cyflawn gael ei drosglwyddo'n ffurfiol i'r prosesau golygu a chynhyrchu.
- Gellir uwchlwytho'r fersiwn ar gofnod i ystorfeydd anfasnachol o ddewis yr awdur. Bydd hefyd yn MA ar Ingenta, y llwyfan cynnal cyfnodolion a ddefnyddir gan GPC.
- Cyfrifoldeb yr awdur yw sicrhau bod unrhyw ganiatâd angenrheidiol ar gyfer deunydd hawlfraint trydydd parti wedi'i glirio ar gyfer MA.
- Mae GPC yn argymell defnyddio trwydded CC BY NC ND. Fodd bynnag, os yw mandad cyllidwr yn pennu trwydded CC BY gwahanol, cysylltwch ag Adran Gomisiynu GPC i drafod.

Rydym ni'n cydymffurfio'n llawn â gofynion Mynediad Agored UKRI, Wellcome, a Plan S. Lle bo angen gan y cyllidwr, mae awduron yn cadw'r hawl i ddosbarthu fersiwn llawysgrif awdur a dderbyniwyd drwy ystorfa sefydliadol a/neu bwnc (e.e. Europe PMC) dan drwydded Creative Commons i'w rhyddhau ar y dyddiad cyhoeddi ar-lein cyntaf.

***Pa drwydded Creative Commons ydym ni'n ei hargymell?***

Mae GPC yn defnyddio cyfundrefn o drwyddedau a grëwyd gan Creative Commons. Mae'r trwyddedau hyn yn dweud wrth ddarllenwyr beth y gallant ac na allant ei wneud gyda chynnwys MA.

Rydym ni'n argymell CC BY NC ND.

Ystyr CC BY NC ND yw:

- CC: caiff unrhyw un rannu neu lawrlwytho eich gwaith
- BY: rhaid i chi gael credyd fel awdur bob amser
- NC: rhaid peidio â defnyddio na gwerthu'r fersiwn MA yn fasnachol
- ND: Ni chaniateir i neb newid eich gwaith

Fodd bynnag, os yw mandad cyllidwr/gofyniad arall yn pennu trwydded CC BY gwahanol, cysylltwch â’ch Golygydd Comisiynu am gyngor.

***A all fy llyfr MA gynnwys deunydd trydydd parti?***

Byddem yn cynghori bod delweddau a ddefnyddir yn y llyfr ar gael dan drwydded CC BY.

Os ydych chi’n bwriadu defnyddio delweddau â hawlfraint nad ydynt ar gael dan drwydded CC BY, rhaid cynnwys capsiwn gyda’r cyfryw ddelweddau sy’n nodi’n glir: manylion deiliad yr hawlfraint, ac na cheir ailddefnyddio’r delweddau dan drwydded CC BY yr erthygl. Cyfrifoldeb yr awdur/golygydd yw ceisio caniatâd i gynnwys deunyddiau trydydd parti os ydynt dan hawlfraint.

Fe’ch cynghorir i gysylltu â’ch Golygydd Comisiynu am ragor o wybodaeth.